Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Adroddiad ar gyfer

# Montgomery Pre-School

Montgomery Church in Wales School
Lôn yr Ysgol
Trefaldwyn
Powys
SY15 6QA

Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2025

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

ac

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Montgomery Pre-school

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Montgomery Pre-school |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | Dd/G |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n gymwys) | Sarah Brian |
| Person â chyfrifoldeb | Katie Emberton |
| Nifer y lleoedd | 24 |
| Ystod oedran y plant | 2-5 oed |
| Nifer y  plant 3 a 4 oed | 29 |
| Nifer y plant sy'n cael cyllid ar gyfer addysg gynnar | 21 |
| Diwrnodau / amseroedd gweithredu | Mae sesiynau addysg 3+ a gaiff eu hariannu yn cael eu cynnal ar foreau dydd Mawrth, dydd Mercher, dydd Iau a dydd Gwener rhwng 8.30am ac 11.00am. Cynhelir sesiynau gofal plant ar ddydd Llun, rhwng 9am a 3pm ar gyfer plant 2-5 oed, a rhwng 11.00am a 3.00pm ar ddydd Mawrth, dydd Iau a dydd Gwener. |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac ydy |
| Iaith y lleoliad | Saesneg |
| A yw'r lleoliad hwn yn darparu'r Cynnig Gofal Plant? | Ydy |
| Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg | Nac ydy |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 20/02/2024 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Hydref 2017 |

| | |
|---|---|
| Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn | 17/06/2025 |
| Lleoliad lle mae'n rhaid rhoi popeth i gadw yw hwn. Mae plant ag anghenion dysgu ychwanegol dwys yn y lleoliad. Nid yw'r lleoliad yn cael ei ariannu er mwyn darparu unrhyw gymorth ychwanegol i'r plant hyn. | |

# Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Llesiant** | **Rhagorol** |
| **Dysgu**<br>**(dim ond i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir y mae hyn yn berthnasol)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Rhagorol** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(dim ond i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir y mae hyn yn berthnasol)** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Rhagorol** |

## Achosion o ddiffyg cydymffurfio

Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Gwella cyfleoedd i'r plant ddatblygu eu dealltwriaeth o'r byd amrywiol y maent yn byw ynddo

A2 Cadw holl dystysgrifau cynnal a chadw gofynnol yr adeilad

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd AGC ac Estyn yn gwahodd y lleoliad i baratoi astudiaeth achos ar ei waith mewn perthynas â'r ‘Trefniadau cefnogol i drosglwyddo i'r ysgol ar gyfer plant a'u teuluoedd’ i'w chyhoeddi ar eu gwefannau.

## Prif ganfyddiadau

### Llesiant: Rhagorol

Mae bron pob un o'r plant yn hapus iawn ac wedi setlo drwy gydol y sesiwn. Maent yn gwybod y bydd yr ymarferwyr yn gwerthfawrogi eu dewisiadau a'u syniadau, yn gwrando'n astud ac yn dangos diddordeb gwirioneddol yn yr hyn sydd ganddynt i'w ddweud. Maent yn dilyn eu diddordebau eu hunain, yn gwneud penderfyniadau am ble maent am chwarae ac â phwy y maent am chwarae yn hyderus.

Mae bron pob un o'r plant yn ymdopi â bod ar wahân i'w rhieni a'u gofalwyr. Maent yn datblygu cysylltiadau emosiynol ac yn teimlo'n gyfforddus yng nghwmni'r ymarferwyr ac yn gyfarwydd â'r drefn o ddydd i ddydd a disgwyliadau'r lleoliad. Mae bron pob un o'r plant yn cael budd o ymdeimlad cryf o ‘Gynefin’ neu o berthyn, gan eu bod yn gweld ffotograffau o'u teuluoedd a'u hanwyliaid sydd wedi'u harddangos ac maent yn barod i siarad am eu cymuned. Er enghraifft, trafododd un plentyn p'un a fyddai'n arddangos ei flodyn haul yn sioe leol Trefaldwyn. Dywedodd plentyn arall wrthym yn llawn cynnwrf ei fod yn edrych ymlaen at fwyta cinio yn yr ‘ysgol fawr’ ac yna chwarae gyda'r ‘bechgyn a'r merched mawr’.

Mae bron pob un o'r plant yn dechrau gwneud ffrindiau. Maent yn chwarae'n hapus gyda'i gilydd neu ochr yn ochr â'i gilydd, ac yn dechrau cydweithredu a rhannu adnoddau yn dda. Maent yn rhyngweithio â'i gilydd mewn ffordd garedig ac ystyrlon. Er enghraifft, wrth chwarae gemau yn yr awyr agored, maent yn helpu eu ffrindiau i ddefnyddio'r wal ddringo'n ddiogel, gan ddilyn y rheolau diogelwch a llongyfarch ei gilydd wrth iddynt lwyddo i ddringo'r wal.

Mae bron bob un o'r plant yn ddysgwyr brwdfrydig ac yn mwynhau chwarae a dysgu gyda'i gilydd. Drwy chwarae pwrpasol, maent yn datblygu eu chwilfrydedd am y byd o'u cwmpas. Er enghraifft, mae rhai o'r plant yn canolbwyntio'n fawr ar gario dŵr gan ddefnyddio cynwysyddion i leoliadau amrywiol yn yr awyr agored.

Mae bron pob un o'r plant yn datblygu eu sgiliau annibyniaeth yn dda yn ystod eu hamser yn y lleoliad, fel dod o hyd i'w henwau a'u gosod ar linyn wrth gyrraedd y lleoliad. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn hyderus wrth fynegi eu hanghenion ac yn atgoffa'r ymarferwyr o reolau'r lleoliad. Er enghraifft, rhoddwyd gwybod i ni fod angen gwisgo hetiau ac eli haul wrth fynd allan i chwarae. Mae'r plant sydd ag anghenion ychwanegol yn dangos galluedd cynyddol i reoli eu hunain a chânt eu hannog i ymuno â'r holl weithgareddau.

## Dysgu (dim ond i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir y mae hyn yn berthnasol): Da

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn hapus, yn chwilfrydig ac yn ymgysylltu'n dda â'r cyfleoedd dysgu sydd ar gael iddynt. Mae'r rhan fwyaf o'r plant, gan gynnwys y rhai hynny ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn unigol. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn datblygu eu sgiliau cyfathrebu a llythrennedd yn dda. Maent yn siarad â'i gilydd a gyda'r oedolion o'u cwmpas ac yn rhannu eu barn am bethau sydd o ddiddordeb iddynt yn hyderus. Er enghraifft, maent yn siarad am eu hoff ffrwythau ac yn disgrifio'r blodau sy'n tyfu yn eu gerddi. Maent yn canu rhigymau cyfarwydd ac yn ymateb i gwestiynau syml wrth iddynt chwarae'n hapus. Mae llawer o'r plant yn mwynhau edrych ar lyfrau ac yn eu trin yn briodol. Maent yn gwrando ar straeon y mae'r oedolion yn eu darllen iddynt ac yn ailadrodd eu hoff straeon i'w ffrindiau. Mae llawer o'r plant yn mwynhau gwneud marciau gan ddefnyddio paent, hambyrddau tywod a sialc yn yr awyr agored ac mae rhai plant yn dechrau rhoi cynnig ar ysgrifennu eu henwau.

Mae llawer o'r plant yn defnyddio geiriau ac ymadroddion Cymraeg yn hyderus ac yn ymateb i'w henwau, yn trafod y tywydd ac yn canu caneuon a rhigymau'n frwdfrydig. Mae rhai o'r plant yn enwi lliwiau ac yn cyfri adnoddau wrth iddynt chwarae.

Mae llawer o'r plant yn datblygu eu sgiliau rhifedd yn briodol. Maent yn cyfri nifer y plant sydd yn y lleoliad ac yn adnabod rhifau yn yr amgylchedd wrth iddynt chwarae. Mae llawer o'r plant yn defnyddio iaith fathemategol yn effeithiol wrth iddynt chwarae, fel siarad am boteli o ddŵr llawn a thrwm a llinellau hir a byr o ddŵr wrth iddynt ei chwistrellu ar y llawr y tu allan.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn datblygu eu sgiliau corfforol yn briodol. Maent yn defnyddio amrywiaeth o adnoddau bach yn fedrus, fel cyllyll i dorri orenau a phipedau i dynnu dŵr er mwyn creu diodydd. Maent yn mwynhau bod yn egnïol yn gorfforol yn yr awyr agored. Er enghraifft, maent yn rhedeg i fyny ac i lawr llwybr sy'n goleddu'n fedrus ac yn cymryd rhan mewn sesiynau symud â brwdfrydedd a chydlyniant.

Mae llawer o'r plant yn datblygu eu sgiliau digidol yn briodol. Er enghraifft, maent yn tynnu llun ar fwrdd gwyn rhyngweithiol ac yn defnyddio'r ddewislen i ddewis lliwiau gwahanol ac i newid maint y marciau a wnânt. Maent yn chwarae straeon ar y chwaraewr sain ac yn mwynhau gwrando arnynt yn annibynnol ac mae rhai ohonynt yn gwrando ar gyfarwyddiadau sydd wedi'u recordio ymlaen llaw ar gyfer gweithgareddau yn llwyddiannus.

Mae llawer o'r plant yn datrys y problemau maent yn dod ar eu traws wrth chwarae ac archwilio'n hyderus. Maent yn datrys sut i sicrhau bod melinau gwynt bach yn troi heb wynt ac yn darganfod y bydd tywod sydd ychydig yn wlyb yn disgyn i waelod y jar os byddant yn taro'r top gyda'u dwylo.

Mae llawer o'r plant yn mwynhau gweithgareddau creadigol, fel gwneud lluniau gludwaith gydag amrywiaeth o ddeunyddiau ac yn cael hwyl wrth ddawnsio â sgarffiau i gerddoriaeth.

## Gofal a datblygiad: Rhagorol

Mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn o'u rolau a'u cyfrifoldebau o ran cadw'r plant yn ddiogel. Maent yn darparu gofal cynnes a phroffesiynol ac yn rhoi polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad ar waith i safon uchel iawn. Mae ganddynt wybodaeth fanwl am faterion diogelu ac yn dilyn gweithdrefnau diogelu'r lleoliad yn ddiwyd. Mae'r ymarferwyr yn meddu ar gymwysterau addas ac wedi'u hyfforddi'n dda. Mae gweithdrefnau cadarn ar waith yn y lleoliad ar gyfer rhoi meddyginiaeth, ymateb i ddamweiniau neu ddigwyddiadau ac mae gweithdrefnau clir ar waith i reoli alergeddau'r plant, eu hanoddefiadau a'u gofynion deietegol. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn peri pryder. Mae'r ymarferwyr yn dilyn safonau uchel o arferion hylendid ac yn annog y plant i ddilyn eu hesiampl, fel y bo'n briodol. Maent yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw yn effeithiol gan sicrhau bod y plant yn cael llawer o gyfleoedd i chwarae yn yr awyr agored, cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol a bod yn yr awyr agored.

Mae'r ymarferwyr yn ymatebol iawn i ymdrechion y plant i gyfathrebu, ac yn gwerthfawrogi ymdrechion pob plentyn. Mae'r ymarferwyr yn rheoli ymddygiad y plant drwy eu canmol a'u hannog yn arbennig o dda. Mae hyn yn arwain at ethos cadarnhaol ym mhob rhan o'r lleoliad sy'n amlwg o'r ffyrdd caredig a pharchus y mae'r plant yn dysgu sut i feithrin cydberthnasau ac ymddwyn mewn grŵp cymdeithasol. Maent yn sicrhau bod profiadau dysgu o ansawdd uchel ar gael i'r plant ym mhob rhan o'r lleoliad. Mae'r ymarferwyr yn mynd ati'n ddiwyd i gynllunio profiadau sy'n cyd-fynd â diddordebau'r plant, sy'n golygu bod y plant yn teimlo eu bod yn cael eu clywed a'u gwerthfawrogi.

Mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn o ddatblygiad plant a'r ffordd o ysbrydoli'r plant er mwyn iddynt ddod yn ddysgwyr chwilfrydig. Er enghraifft, yn dilyn diddordeb plentyn mewn ceir, defnyddiodd yr ymarferwyr y wybodaeth hon i osod ardal lle y gallai'r plant olchi a glanhau'r ceir i ddatblygu eu sgiliau echddygol manwl.

Mae'r ymarferwyr yn cefnogi'r plant ag ADY yn rhagweithiol ac yn gweithio'n agos gydag asiantaethau allanol i sicrhau y caiff anghenion unigol y plant eu diwallu a bod cymorth priodol ar gael. Mae'r ymarferwyr yn cynnwys y plant yn eu dysgu drwy ddefnyddio profiadau bywyd go iawn, er enghraifft ŵyn yn ymweld â'r lleoliad a chadw lindys. Maent yn cynnal adolygiadau o gynnydd pob plentyn yn rheolaidd, gan sicrhau y caiff y camau dysgu nesaf eu nodi a bod pob aelod o'r staff yn cael ei gynnwys yn y broses o gynllunio er mwyn diwallu anghenion unigol y plant.

## Addysgu ac asesu (dim ond i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir y mae hyn yn berthnasol): Da

Mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth dda o'r ffordd y mae plant bach yn dysgu. Maent yn adnabod y plant yn dda ac yn cynllunio gweithgareddau llawn hwyl a diddorol dan do ac yn yr awyr agored. Maent yn cymryd sylw o ddiddordebau'r plant a'u patrymau chwarae yn effeithiol. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon i lywio eu cynlluniau'n effeithiol.

Mae'r ymarferwyr yn myfyrio ar eu gwaith ac yn gweithio'n dda fel tîm. Maent yn neilltuo digon o amser i'r plant gymryd diddordeb yn yr hyn y maent yn ei wneud. Mae'r ymarferwyr yn fodelau rôl da ac yn dangos i'r plant sut i ddefnyddio adnoddau'n briodol, fel troi'r tap ymlaen ac i ffwrdd i gael dŵr o'r gasgen ddŵr a'r ffordd o ddefnyddio peiriant creu sudd i wasgu orenau. Maent yn defnyddio iaith briodol gyda'r plant ac yn eu cyflwyno i eirfa newydd wrth iddynt chwarae'n effeithiol. Er enghraifft, maent yn enwi blodau wrth i'r plant eu rhoi mewn jariau. Mae'r ymarferwyr yn gofyn cwestiynau sy'n annog sgiliau meddwl a datrys problemau'r plant yn dda, fel gofyn iddynt sut y gallent ddefnyddio poteli chwistrellu i roi dŵr i'r planhigion.

Mae'r ymarferwyr yn annog y plant i ymateb i gwestiynau a mynegi eu barn a'u safbwyntiau. Maent yn darparu ardaloedd darllen cyfforddus, lle gall y plant ymlacio a mwynhau gwrando ar straeon ar eu pen eu hunain neu gydag eraill. Mae'r ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd buddiol i'r plant gymryd rhan mewn gweithgareddau gwneud marciau, fel copïo patrymau ysgrifennu a defnyddio sialc yn yr awyr agored.

Mae'r ymarferwyr yn meithrin sgiliau Cymraeg y plant yn addas. Maent yn annog y defnydd o'r Gymraeg drwy gyfarchion, caneuon, a sgyrsiau syml am y tywydd. Maent yn helpu'r plant i gyfri eitemau ac enwi lliwiau wrth chwarae.

Mae'r ymarferwyr yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i'r plant ddysgu am eu hunaniaeth a'u diwylliant Cymreig, drwy ddathlu Dydd Gŵyl Dewi lle maent yn blasu bwyd traddodiadol o Gymru. Mae'r ymarferwyr yn arddangos baneri Cymru a gwisgoedd o Gymru, ochr yn ochr â nodweddion a thirnodau lleol sy'n helpu'r plant i adnabod symbolau o Gymru a datblygu ymdeimlad cryf o berthyn i'w cymuned leol.

Mae'r ymarferwyr yn cefnogi sgiliau rhifedd cynnar y plant yn dda. Maent yn annog y plant i gyfri wrth iddynt chwarae, fel cyfri lindys mewn tŷ gloÿnnod byw a darparu adnoddau fel llinellau rhif er mwyn helpu'r plant i gyfri pleidleisiau ar gyfer amser stori. Mae'r ymarferwyr yn darparu amrywiaeth addas o brofiadau ymarferol i gefnogi'r plant i ddeall cysyniadau mathemategol ehangach, fel capasiti lle maent yn llenwi a gwagio cynwysyddion o ddŵr.

Mae'r lleoliad yn hyrwyddo sgiliau corfforol y plant yn dda drwy amrywiaeth eang o brofiadau ac adnoddau i ddatblygu eu cryfder craidd a'u galluedd. Er enghraifft, mae'r

ymarferwyr yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i'r plant ddringo ar fframiau dringo, cwblhau cyrsiau rhwystrau a dawnsio a symud i gerddoriaeth. Maent yn darparu amrywiaeth eang o adnoddau i helpu i ddatblygu sgiliau echddygol manwl a sgiliau trafod y plant, fel defnyddio cyllyll i dorri ffrwythau, pipedi i dynnu dŵr a deunyddiau marcio i wneud marciau.

Mae'r ymarferwyr yn helpu i ddatblygu nodweddion ysbrydol, diwylliannol a morâl y plant, drwy ddathlu gwyliau fel y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a Diwali. Fodd bynnag, nid yw'r ymarferwyr yn rhoi digon o gyfleoedd buddiol i'r plant brofi a dysgu am fywydau, diwylliannau a chredoau y rhai hynny sydd o bosibl yn wahanol i'r rhai y maent yn eu hwynebu.

Mae gweithdrefnau'r lleoliad ar gyfer monitro cynnydd y plant yn effeithiol. Mae'r ymarferwyr yn cynnal arsylwadau rheolaidd o arferion chwarae'r plant ac yn cynnal arsylwadau sy'n canolbwyntio ar bob maes dysgu. Maent yn nodi targedau ar gyfer y plant, gan gynnwys y rhai ag ADY, ac yn eu monitro. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon i nodi camau nesaf y plant er mwyn iddynt ddysgu'n llwyddiannus.

### Yr Amgylchedd: Da

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel iawn ac yn cofnodi pob ymwelydd sy'n mynychu'r lleoliad. Maent yn rhoi asesiadau risg effeithiol ar waith ac yn monitro a gwerthuso'r ardal chwarae yn gyson er mwyn dileu unrhyw risgiau i'r plant. Mae'r arweinwyr yn darparu amgylchedd sy'n adlewyrchu ac yn diwallu anghenion y plant ac yn bodloni eu diddordebau. Mae hyn yn eu hannog i arbrofi a chymryd risgiau wrth chwarae. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y cyfarpar tân a diogelwch yn cael ei wirio'n rheolaidd ac maent yn cwblhau ymarferion tân rheolaidd, gan wneud yn siŵr bod yr ymarferwyr a'r plant yn deall y gweithdrefnau i'w dilyn mewn argyfwng. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw i safon uchel. Fodd bynnag, nid ydynt yn cadw'r holl ddogfennaeth angenrheidiol.

Mae'r lleoliad yn rhannu'r cyfleuster â grwpiau cymunedol eraill, ac mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'r ymarferwyr roi’r holl adnoddau i gadw ar ddiwedd pob sesiwn. Er bod angen i'r ymarferwyr gwblhau'r dasg hon bob dydd, maent yn gweithio'n ddiwyd i sicrhau bod yr amgylchedd bob amser yn cael ei osod i ddarparu profiad dysgu cyfoethog i'r plant. Mae'r amgylchedd dan do yn fawr, yn olau, yn dawel ac yn groesawgar. Mae dodrefn lefel isel addas ar gael, sy'n galluogi'r plant i gael gafael ar adnoddau a'u defnyddio'n annibynnol. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod cyfle gan y plant i ddefnyddio'r ardal awyr agored drwy gydol y sesiwn. Mae'r amgylchedd yn helpu'r plant i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth a chymdeithasol yn effeithiol. Mae'r cyfleusterau toiled yn hygyrch, sy'n eu helpu i roi arferion hylendid da ac annibynnol ar waith.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod cymysgedd o adnoddau naturiol a masnachol o ansawdd uchel ar gael ym mhob ardal. Er enghraifft, mae'r plant yn defnyddio adnoddau bywyd go iawn a darnau rhydd naturiol wrth chwarae i gefnogi eu hawydd i archwilio a gwella eu chwarae rôl dychmygol. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr ymarferwyr yn dilyn systemau cadarn i wirio'r teganau, y cyfarpar a'r adnoddau'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn lân ac mewn cyflwr da.

### Arweinyddiaeth a rheolaeth: Rhagorol

Mae'r arweinwyr yn ymroddedig iawn ac yn gweithio'n ddiwyd i ddarparu arweinyddiaeth o ansawdd uchel yn y lleoliad. Mae ganddynt weledigaeth glir ar gyfer meithrin plant hapus, annibynnol, a hyderus, sy'n teimlo fel eu bod yn rhan o'r gymuned ac sydd ag ymdeimlad o berthyn. Mae'r arweinwyr yn gweithio'n agos gyda'i gilydd ac yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod gwaith y lleoliad, datblygiad y plant, a'r cynnydd a wnaed tuag at welliannau a gynllunnir. Mae'r arweinwyr yn creu ac yn cynnal ethos tîm cryf a chydweithredol, lle mae'r ymarferwyr yn teimlo'n gyfforddus i gyfrannu at gyfarfodydd mewn ffordd ystyrlon.

Mae'r arweinwyr yn ymrwymedig iawn i wneud gwelliannau yn y lleoliad ac mae'r broses o werthuso gwaith y lleoliad yn effeithiol iawn. Mae ganddynt ddyheadau uchel ac yn ymgynghori ag amrywiaeth fuddiol o randdeiliaid i gefnogi'r broses. Maent yn casglu barn sefydliadau allanol, y rhieni a'r gofalwyr ac yn ei defnyddio'n rheolaidd i weithredu ar yr awgrymiadau a wnaed. Er enghraifft, yn dilyn adborth gan riant gwnaethant gynyddu nifer y ffotograffau y maent yn eu rhoi ar gyfryngau cymdeithasol. Hefyd, mae'r arweinwyr yn ymgynghori â'r plant fel rhan o'r broses ac yn gofyn iddynt osod wynebau hapus a wynebau trist ar gyfer meysydd gwahanol o ddysgu. Mae'r arweinwyr yn nodi meysydd i'w gwella yn glir ac yn blaenoriaethu'r rhai a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth, arferion y staff a'r canlyniadau i'r plant. Mae'r arweinwyr yn monitro'r cynnydd tuag at gyflawni'r targedau gwella ac yn mesur eu heffeithiau. Mae'r arweinwyr yn defnyddio'r grantiau'n dda er mwyn gwneud gwelliannau i'r ardaloedd â blaenoriaeth. Er enghraifft, gwnaethant brynu lloches i ehangu'r cyfleoedd sydd ar gael i'r plant ddysgu yn yr awyr agored.

Mae datganiad o ddiben clir ar waith sy'n rhoi darlun cywir o'r lleoliad yn ogystal ag amrywiaeth gynhwysfawr o bolisïau a gweithdrefnau a gaiff eu rhoi ar waith yn effeithiol gan yr ymarferwyr. Mae'r ymarferwyr yn meddu ar gymwysterau addas ac mae proses recriwtio a sefydlu ar waith sydd wedi'i datblygu'n dda. Mae'r arweinwyr wedi datblygu systemau arfarnu gwerth chweil sy'n rhoi cyfleoedd i'r ymarferwyr fyfyrio ar eu gwaith. Maent yn gosod targedau ar eu cyfer, sy'n gysylltiedig â'r meysydd i'w gwella â blaenoriaeth.

Mae'r holl arweinwyr a'r ymarferwyr yn cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o gyfleoedd hyfforddiant gwerth chweil i ddatblygu eu hymarfer a chynnig profiadau dysgu newydd i'r plant. Er enghraifft, awgrymodd hyfforddiant diweddar ar gynefin y dylid rhoi ffotograffau o'r plant ar y blociau, er mwyn eu helpu i adnabod eu hunain a'u ffrindiau wrth iddynt adeiladu.

Mae partneriaethau cryf ar waith â'r rhieni a'r gofalwyr. Mae'r ymarferwyr yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am gynnydd eu plant drwy drafodaethau anffurfiol ar ôl sesiynau, adroddiadau ysgrifenedig rheolaidd a thrwy rannu ffotograffau o weithgareddau dysgu ar gyfryngau cymdeithasol.

Mae'r arweinwyr wedi meithrin cydberthynas gadarn ac effeithiol â'r ysgol lle mae'r lleoliad wedi'i leoli. Mae'r plant yn mynd i wasanaethau dathlu cyraeddiadau gyda'u rhieni a'u gofalwyr drwy gydol y flwyddyn ac yn ymuno â digwyddiadau arbennig, fel digwyddiadau i ddathlu Diwrnod Buddugoliaeth yn Ewrop a diwrnod chwaraeon. Mae'r trefniadau trosglwyddo i gefnogi'r plant yn eu camau dysgu nesaf yn effeithiol iawn. Mae'r plant yn bwyta eu cinio gyda phlant eraill yr ysgol ac yn chwarae yn yr ystafell ddosbarth newydd yn wythnosol. Mae'r athrawon o'r ysgol yn ymweld â nhw yn rheolaidd ac mae'r rhieni a'r gofalwyr yn cael cylchlythyrau ysgol yn rheolaidd. Mae'r arweinwyr yn cyfarfod â'r rhieni a'r gofalwyr a'r athro dosbarth i rannu gwybodaeth ac i sicrhau eu bod yn gyfforddus â'r trefniadau. O ganlyniad, mae hyn yn brofiad cadarnhaol i'r plant, y rhieni, a'r gofalwyr sy'n edrych ymlaen at symud. Mae'r trefniadau hyn yn gryfder yn y lleoliad.

Mae'r arweinwyr yn defnyddio'r gymuned leol yn effeithiol i gyfoethogi profiadau'r plant, fel ymweld â siopau a chaffis lleol a mynd i wasanaethau yn yr eglwys. Maent yn cymryd rhan mewn cystadlaethau tyfu blodau yn sioe flynyddol Trefaldwyn. Mae ymweliadau gan nyrs a milfeddyg yn cyfrannu at ddealltwriaeth y plant o'r byd ehangach.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y lleoliad ac ar wefannau AGC ac Estyn (http://arolygiaethgofal.cymru) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn gwerthuso effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa pedwar pwynt:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac ymarfer parhaus cryf iawn |
| **Da** | Llawer o gryfderau, heb unrhyw feysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae'r cryfderau yn gwrthbwyso'r gwendidau ond mae angen gwneud gwelliannau |
| **Gwael** | Mae gwendidau pwysig yn gwrthbwyso'r cryfderau ac mae angen gwneud gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol/Prysg (o'r Saesneg i'r Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2025:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, ar yr amod y gwneir hynny'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a nodi teitl yr adroddiad.

Dyddiad cyhoeddi:  19/08/2025